

Atodiad 1 – ffurflen a llythyr cydsynio

FFURFLEN GYDSYNIO I RHIENI

TEITL Y PROSIECT: Sut gallwn wella dealltwriaeth disgyblion y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwyllynnedd.

Enw'r Ymchwilydd: Lauren Cole

1. Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y ffurflen wybodaeth sydd wedi ei atodi ar gyfer yr astudiaeth uchod. ☐
2. Deallaf fod cyfranogiad fy mhlentyn yn wirfoddol ac rwy'n rhydd i dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. ☐
3. Rwy'n deall y gall fy mhlentyn ddewis tynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. ☐
4. Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a roddir gan fy mhlentyn yn cael ei defnyddio mewn aseiniad Prifysgol. ☐
5. Deallaf na fydd fy enw yn ymddangos ar unrhyw bryd. ☐
6. Cytunaf i fy mhlentyn gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod. ☐

Enw'r plentyn

Llofnod y rhiant

Dyddiad

Ar ôl ei llenwi, dychwelwch yn yr amlen a roddwyd i'r dosbarth blwyddyn 1 erbyn y 27ain o Ionawr 2020.

Diolch.

FFURFLEN WYBODAETH

TEITL Y PROSIECT: Sut gallwn wella dealltwriaeth disgyblion y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwyllynnedd?

Annwyl Rhiant / Warcheidwad:

Fy enw i yw Lauren Cole ac rwy'n astudio am gymhwyster TAR yn Yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ar hyn o bryd, rydw i'n ddarpar athrawes yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ac yn addysgu yn nosbarth eich plentyn.

Hoffwn wahodd eich plentyn i gymryd rhan yn fy mhrosiect ymchwil. Teitl y prosiect yw Sut gallwn wella dealltwriaeth disgyblion y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwyllynnedd ac rwy'n anelu at darganfod pa wybodaeth cefndir sydd gan y plant am aml-ddiwyllynnedd a sut yr ydyn yn gallu cryfhau eu dealltwriaeth erbyn diwedd yr ymchwiliad. Trwy gyfranogiad eich plentyn, rwy'n gobeithio canfod y wybodaeth angenrheidiol sydd angen amaf wrth cynorthwyo gyda'r ymchwiliad hon.

Yn ystod yw ymchwiliad hwn, mi fydd fy mhartner ymchwil yn fy arsylwi i a'ch plentyn tra fy mod yn addysgu'r dosbarth er mwyn canfod dealltwriaeth eich plentyn a chofnodi unrhywbeth ychwanegol y byddaf efallai yn colli wrth addysgu'r dosbarth cyfan. Byddwn yn asesu'r plentyn fel rhan o'r dosbarth ac yn ystod tasg ffocws yn dilyn y dasg agoriadol. Yn dilyn y wers byddwn i a'm partner ymchwil yn cynnal cyfweiliad grŵp gyda'ch plentyn, ynghyd ag unigolion eraill a ddewiswyd fel rhan o'r ymchwiliad er mwyn eto asesu dealltwriaeth ag i weld os ydyn nhw wedi dysgu unrhywbeth yn ystod yr astudiaeth. Mi fydd y cyfweiliad yn cael ei recordio.

Bydd pob enw yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol a dim ond minnau a'm partner ymchwil fydd yn ei adnabod. Mae cyfranogiad eich plentyn yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol felly gallwch chi neu'ch plentyn dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg. Bydd gofyn i'ch plentyn roi ei gydsyniad cyn dechrau'r astudiaeth yn ogystal.

Ar ôl dadansoddi'r data a gafwyd o'r arsylwadau gwersi a'r cyfweiliad grŵp, byddwn yn falch o roi copi o'r canfyddiadau i chi ar eich cais. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu trafod mewn aseiniad Prifysgol a fydd yn cyfrannu at fy nghwrs TAR. Caiff canlyniadau'r astudiaeth hon eu storio ar OneDrive a chaiff yr holl ddata crai eu dinistrio unwaith y bydd yr asesiad wedi'i farcio.

Diolch i chi ymlaen llaw am eich amser. Os oes unrhyw gwestiynau'n codi, mae croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw bryd.

Yn gywir,

Lauren Cole

CONSENT FORM FOR PARENTS

PROJECT TITLE: How can we improve pupils' understanding of multi-culturalism in reception and year 1?

Name of Researcher:

Please initial box

1. I confirm that I have read and understand the information sheet for the above study.

☐

2. I understand that my child's participation is voluntary and that I am free to withdraw my child from the study at any time, without giving any reason.

☐

3. I understand that my child can choose to withdraw at any time, without giving a reason.

4. I understand that the information given by my child will be used in a university assignment.

☐

5. I understand that my child's name will not appear at any time.

☐

6. I agree for my child to take part in the above study.

☐

Child's name

Parent signature

Date

When completed, please return in the envelope provided to the year 1 class by the 27th of January 2020.

Thank you.

INFORMATION SHEET

PROJECT TITLE: How can we improve pupils' understanding of multi-culturalism in Reception and Year 1?

Dear Parent / Guardian,

My name is Lauren Cole and I am studying for a PGCE at Yr Athrofa, University of Wales Trinity Saint David. I am currently a student teacher within Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg and am teaching in your child's class.

I would like to invite your child to participate in my research project. The title of the project is How can we improve pupils' understanding of multi-culturalism in Reception and Year 1, and I aim to find out what the children's previous knowledge of multi-culturalism is and how we strengthen their understanding by the end of the inquiry. Through your child's participation, I hope to ascertain the necessary information I need to assist me with this project.

During this investigation, my research partner will observe me and your child while I am teaching the class in order to establish your child's understanding and record any additional information I might miss when teaching the whole class. We will assess the child as part of the class during a focus task following the opening task. Following the lesson my research partner and I will be conducting a group interview with your child, along with other individuals selected as part of the investigation to again assess their understanding and see if they have learnt anything during the study. The interview will be recorded.

All names will be kept strictly confidential and will only be known by myself and my research partner. Your child's participation in this study is completely voluntary so you or your child can withdraw from the study at any stage. Your child will also be asked to give their assent before the beginning of the study.

After careful and precise analysis of the data obtained from the lesson observation and group interview, I would be happy to provide you with a copy of the findings at your request. The results of the research will be discussed in a university assignment that will contribute to my PGCE course. The results of this study will be stored on the University's OneDrive and all raw data will be destroyed once the assessment has been marked.

I thank you in advance for your time. If any questions do arise, feel free to contact me at your convenience.

Yours sincerely,

Lauren Cole

Atodiad 2 – Gwerthusiad blwyddyn 1

Sut gallwn wella dealltwriaeth disgyblion y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwylliannedd?

Taflen arsylwi

Lefel Dealltwriaeth	Plentyn 1 OG – Gallu Uwch	Plentyn 2 J – Gallu Canolig	Plentyn 3 O – gallu isel
Dealltwriaeth isel			✓
Ymyrraeth barhaol ar ddealltwriaeth			
Dealltwriaeth barhaol yn bennaf			
Dealltwriaeth barhaol	✓	✓	
Dealltwriaeth barhaol ddwys			

Dealltwriaeth Isel: Heb ddeall y cysyniad o gwbl ac yn ateb cwestiynau yn anghywir yn gyson. Braidd dim sylw.

Ymyrraeth barhaol ar ddealltwriaeth: Braidd wedi deall ond yn ceisio ateb cwestiynau. Sylw yn cael ei atynnu yn hawdd.

Dealltwriaeth barhaol yn bennaf: plentyn wedi deall y cysyniad ond yn ansicr am rai pwyntiau a godwyd. Serch hynny'n ymwneud a gweithgaredd a cheisio cynnig atebion dilys. Sylw yn cael ei atynnu ar adegau.

Dealltwriaeth barhaol: plentyn wedi deall y cysyniad ac yn hapus i ymateb i gwestiynau yn gywir. Sylw parhaus.

Dealltwriaeth barhaol ddwys: plentyn wedi llwyr ddeall y cysyniad ac yn gallu ymhelaethu ar atebion gan ddechrau mynegi barn ynghylch aml-ddiwylliannedd. Sylw parhaus.

Taflen Brookfield (1998 & 2005).

Hunangofiannol	Sut yr oeddwn yn meddwl aeth y wers? Credaf yn glir roedd y wers yn un llwyddiannus. Roedd y gweithgareddau a chynlluniwyd yn priodol ar gyfer y wers a roedd y plant wedi mwynhau pob un ohonynt. Roedd pob un plentyn wedi gweithio yn arbennig o dda yn ystod y wers a roedd mae'n amlwg roedden nhw wedi datblygu ei dealltwriaeth ar aml-ddiwylliannedd. Roedd pob un plentyn yn barod i ateb cwestiynau ar ddiwedd y wers nad oedden nhw yn gwybod ar ddechrau'r wers. Beth oedd yn llwyddiannus? Y peth fwyaf llwyddiannus dwi'n meddwl yw'r dewis o adnoddau a gweithgareddau. Gan fod plant yn mwynhau gweithgareddau ymarferol, roeddwn wedi penderfynnu cynnal rhain fel ffordd o gynyddu ar dealltwriaeth. Roedd pob un plentyn eisiau cymryd rhan yn y dasg ffocws felly roedd hyn yn llwyddiant i weld roedden nhw yn barod i ymgysylltu a'r wers. Roedd y dosbarth wedi mwynhau pob tasg oedd ar gael yn y
-----------------------	---

	dosbarth ag yn fodlon trio pob un. O ganlyniad i hyn roedden nhw wedi mwynhau yn fawr iawn ac roedd pob un wedi dysgu rhywfaint o'r wers. A allwn newid unrhywbeth at y tro nesaf? Un peth amlwg mi fyddwn yn newid am y tro nesaf yw defnyddio'r bocs yn y dasg ffocws. Roedd yn dda ar y dechrau fel bod y plant yn gallu dyfalu beth oedd yn y bocs gan teimlo ond roedd wedi cymryd bach gormod o amser wrth i bawb teimlo rhywbeth ynddo. I wella dealltwriaeth y plant ym mhellach, byddwn yn creu fwy o dasgau ble mae'n rhaid i'r plant rhoi eu hunan yn sefyllfaoedd gwahanol. E.e gallwn wedi defnyddio mwy o chwarae rôl yn ystod y wers er mwyn cael profiadau mwy go iawn i bawb. Trwy hyn, mi fydd pawb yn ymgymryd mewn tasgau sydd yn ymwneud yn sbesifig ar aml-ddiwylliannedd.
<u>Llygaid y myfyrwyr</u>	Beth y mae'n nhw wedi ei ddysgu? Ffocws y wers oedd addysgu a gynyddu dealltwriaeth y plant ar aml-ddiwylliannedd. Roedden wedi ymchwilio mewn i bump gwlad yn bennaf o ran ei banneri, traddodiadau, bwydydd a gwisgoedd. Doedd dim llawer o ddealltwriaeth gan y plant ar y dechrau am y pump gwlad yma ond

	erbyn y diwedd roedd mwyafrif y dosbarth yn gallu ateb cwestiynau nad oedden nhw yn gwybod ar y dechrau. Dysgon nhw ei bod yn bwysig i barchu traddodiadau gwledydd gwahanol hefyd dysgon nhw geiriau y roedden nhw'n gwybod yn Saesneg ond nid yn y Gymraeg. Erbyn y diwedd, roedden nhw yn deall bod gan pob gwlad traddodiadau, gwisgoedd a gwahaniaethau arall i Gymru. Oedden nhw wedi mwynhau'r wers? Credaf yn gryf roedd pob plentyn wedi mwynhau'r wers oherwydd roedd pob un yn boarod i ymgymryd mewn pob tasg a gosodwyd ac hefyd yn barod i gymryd rhan mewn trafodaeth am aml-ddiwyllynnedd ar diwedd y wers. Roedd hyn yn gwers anarferol i'r blant gan ei fod yn gallu blasu bwyd a gwneud gweithgaredd efallai na fydden nhw yn gwneud mewn bywyd pob dydd. Roedd pob un ohonyn nhw eisiau cynnig atebion ar llawr y dosbarth am aml-ddiwyllynnedd ac hefyd eisiau dangos ei waith i mi pan gorffennon nhw tasg. Roedd y plant yn awyddus i gymryd rhan yn y dasg ffocws a roedd hyn yn amlwg wrth i'r plant cerdded trwy'r drws yn y bore. Felly o ganlyniad i'r agweddau yma, credaf yn gryf roedd pob yn plentyn wedi mwynhau'r wers yn fawr iawn.
Cyfoedion - Partner	Sut aeth y wers?

O ystyried nad oedd y plant a dealltwriaeth o'r cysyniad aml-ddiwylliannedd fe aeth y wers yn llwyddiannus iawn. Fe gynllunio ni gweithgareddau a oedd yn hygyrch ac yn ennyn diddordeb pawb. Yr oedd y diddordeb yma yn amlwg wrth i bawb ymroi 100% i bob gweithgaredd yn ogystal yn eu hymatebion.

Er ni weithodd pob elfen o'n tasg ffocws, yr oedd y cysyniad yn gadarn ac felly rhaid dweud bod y wers yn un llwyddiannus.

Byddwn yn dweud ein bod ni wedi llwyddo i ymateb i'n cwestiwn gan sicrhau bod y disgyblion wedi cael peth gwybodaeth, ac erbyn diwedd y wers yn gallu enwi'r gwledydd ynghyd a'r bwydydd, traddodiadau a gwisgoedd oedd yn perthyn iddynt.

A oedd yn llwyddiannus? A oedd y plant wedi ymateb yn dda?

Yn sicr yr oedd y plant wedi ymateb yn bositif ac yn sensitif i'r pwnc dan sylw. Yr oedd y ffaith bod gennym dasg ffocws ymarferol, gweledol wedi atynnu sylw yn syth ac wedi ennyn diddordeb yr holl dosbarth. Yr oedd pawb yn ysu i fod yn rhan o'r grŵp ffocws. Dangosodd parodrwydd ac ymatebion y plant eu bod nhw wedi mwynhau dysgu am y pwnc dan sylw, ac wedi cael y cyfle i archwilio pethau

	newydd mewn modd creadigol. Yn sicr gwers llwyddiannus y byddaf yn bendant yn edrych i archwilio'n bellach gyda'r cynradd yn y dyfodol. Beth allwn newid am y tro nesaf yr ydym yn dysgu'r wers? Byddaf yn cytuno gyda fy mhartner a dweud bod eisiau cael gwared a'r bocs. Yr oedd wedi creu eithaf tipyn o ffwdan yn ystod y dasg ac felly wedi arafu'r broses ac atynnu sylw rhai o'r plant. Yr oedd hyn efallai wedi tynnu oddi ar ymatebion gan fod y plant yn diflasu erbyn diwedd y dasg. Wrth ail-gynnal yr ymchwil gyda fy nosbarth yfory, efallai y bydd yn syniad i leihau ar nifer y gwrthrychau/bwyd hefyd gan bod ein sesiynau ni'n fyrach ac byddwn yn cylchdroi 4 grwp o fewn yr awr. Bydd llai o eitemau/bwyd hefyd, gobeithio, yn sicrhau sylw ac ymateb gan bawb trwy gydol y dasg.
Llenyddiaeth	

Atodiad 3 – gwerthusiad y derbyn

Sut gallwn wella dealltwriaeth disgyblion y derbyn a blwyddyn 1 o aml-ddiwylliannedd?

Taflen arsylwi

Lefel Dealltwriaeth	Plentyn 1 (J) – gallu Uwch	Plentyn 2 (Th) – gallu uwch	Plentyn 3 (N) – gallu canol/uwch	Plentyn 4 (B) – gallu canol/isel	Plentyn 5 (A) – gallu isel
Dealltwriaeth isel					
Ymyrraeth parhaol ar ddealltwriaeth					✓
Dealltwriaeth parhaol yn bennaf				✓	
Dealltwriaeth parhaol			✓		
Dealltwriaeth parhaol ddwys	✓	✓			

Dealltwriaeth Isel: Heb ddeall y cysyniad o gwbl ac yn ateb cwestiynau yn anghywir yn gyson. Braidd dim sylw.

Ymyrraeth barhaol ar ddealltwriaeth: Braidd wedi deall ond yn ceisio ateb cwestiynau. Sylw yn cael ei atynnu yn hawdd.

Dealltwriaeth barhaol yn bennaf: plentyn wedi deall y cysyniad ond yn ansicr am rai pwyntiau a godwyd. Serch hynny'n ymwneud a gweithgaredd a cheisio cynnig atebion dilys. Sylw yn cael ei atynnu ar adegau.

Dealltwriaeth barhaol: plentyn wedi deall y cysyniad ac yn hapus i ymateb i gwestiynau yn gywir. Sylw parhaus.

Dealltwriaeth barhaol ddwys: plentyn wedi llwyr ddeall y cysyniad ac yn gallu ymhelaethu ar atebion gan ddechrau mynegi barn ynghylch aml-ddiwylliannedd. Sylw parhaus.

 Taflen Brookfield (1998 & 2005).

Hunangofiannol	Sut yr oeddwn yn meddwl aeth y wers? O ystyried nad oedd y plant a dealltwriaeth o'r cysyniad aml-ddiwylliannedd fe aeth y wers yn llwyddiannus iawn. Fe gynllunio ni gweithgareddau a oedd yn hygyrch ac yn ennyn diddordeb pawb. Yr oedd y diddordeb yma yn amlwg wrth i bawb ymroi 100% i bob gweithgaredd yn ogystal yn eu hymatebion. Beth oedd yn llwyddiannus? Yr oedd mwynhad pob plentyn a'r ffaith hefyd eu bod nhw'n barod i gymryd rhan a chynnig ymatebion ac eisiau dysgu yn adlewyrchiad teilwng o lwyddiant y wers. Yr oedd y ffaith bod LSA hefyd yn cydweithio gyda grwp wrth ddioli yn golygu bod rhediad y wers llawer well, a bod pawb wedi cwblhau'r hyn a oedd dan sylw. A allwn newid unrhywbeth at y tro nesaf? Petawn ni'n ail-gynnal yr ymchwil i'r dyfodol efallai gallwn gael amrywiaeth
-----------------------	--

	well o dasgau. Yr oedd gennym dasg ffocws a oedd yn ymwneud a bwyd y gwahanol wledydd. Efallai gallwn gwneud gwell ddefnydd o'r ardaloedd yn y dosbarth e.e ardal chwarae rol, gyda'r plant yn defnyddio'r gwahanol wisgoedd o'r gwahanol wledydd e.e beret neu'r wisg draddodiadol Gymreig. Trwy wneud hynny bydd mwy o bwyslais ar yr elfen o aml-ddiwylliannedd yn ystod pob un o'r gweithgareddau ac felly bydd y cysyniad yn gadarn ac yn cael ei atgyfnerthu i'r plant.
Llygaid y myfyrwyr	Beth y mae'n nhw wedi ei ddysgu? Dysgodd y plant am y pump gwahanol wlad dan sylw gan archwilio 'r bwydydd gwisgoedd a thraddodiadau gwahanol a oedd yn deillio ohonynt. Erbyn diwedd y wers yr oedd y plant yn gallu adnabod y baneri gwahanol, ynghyd a'u enwi nhw'n Gymreig gan yntau enwi'r eitemau gwahanol a oedd yn gysylltiedig gyda'r gwledydd. Deallon nhw nad oedd popeth bellach yn dod o Gymru a bod gan gwledydd rhyfeddodau eu hunain i'w gynnig. Gwelon nhw ei fod yn bwysig i ystyried a pharchu'r gwahaniaethau yma a bod aml-ddiwylliant yn rhywbeth i ddathlu a mwynhau ag eraill. Oedden nhw wedi mwynhau'r wers?

	O'r ffordd yr oedd y plant wedi ymgymryd a'r weithgareddau yr yn sicr eu bod nhw mwynhau. Yr oedd aml-ddiwyllyannedd yn bwnc nad oedden nhw'n gwybod llawer yn ei gylch ond serch hynny yr oedden nhw gyd wedi ymroi yn llwyr er mwyn dysgu mwy am y pwnc newydd. Roedd cynnwrf a pharodrwydd y plant yn ystod y dasg ffocws, wrth iddyn nhw droi'r bwydydd amrywiol, newydd yntau'n adlewychiad o'u mwynhad.
Cyfoedion - Partner	<u>Sut aeth y wers?</u> Yn fy marn i, aeth y wers yn dda iawn. Er dim ond pedwar a phump mlwydd oed ydyn nhw, ymgysyllton nhw yn arbennig i bob weithgaredd a gosodwyd. Roedd pob un plentyn wedi cael tro yn gwneud y dasg ffocws ac wedi mwynhau yn fawr iawn. Rydw i'n meddwl fod gwneud gweithgareddau ymarferol iddyn nhw yn buddiol iawn oherwydd maen nhw yn fwy dueddol o gymryd rhan sy'n arwain at mwynhad a dysgu. O ganlyniad i'r wers blaenorol gyda flwyddyn 1, roedden ni wedi newid defnyddio bocs a weithiodd hyn yn dda iawn wrth dim ond rhoi'r bwyd ar y plat. Erbyn diwedd y wers, roedd y plant yn gallu ateb cwestiynau nad oedden nhw yn gwybod ar ddechrau'r wers felly cytunaf yn llwyr bod gwers llwyddianus oedd hi.

A oedd yn llwyddiannus? A oedd y plant wedi ymateb yn dda?

Credaf yn gryf fod y wers yn llwyddiant gan bod y plant wedi dysgu rhywbeth ohonynt. Nid dim ond y plant o dan sylw ond roedd pob plentyn eisiau rhoi cynnig ar ateb cwestiynau erbyn diwedd y wers. Mi oedd y plant wedi ymateb yn gwych yn ystod y wers ac yn dangos cynydd yn eu ddealltwriaeth o'r thema dan sylw. Roeddwn yn gallu gweld o'r man cychwyn, y plant yn dod i fewn i'r dosbarth, hyd at diwedd y wers, roedd pob plentyn wedi rhoi 100% o ymdrech mewn i bob dasg a gosodwyd a roedden nhw wedi mwynhau pob un.

Dwi'n meddwl wrth gwneud gweithgareddau ymarferol, roedd hyn wedi helpu llawer o fewn ymrwymiad y plant o fewn y gweithgareddau. Roedd pob un ohonynt yn barod i drio pob tasg oedd ar gael ac yn dangos cynydd o ddealltwriaeth wrth iddynt cylchdroi i dasgau amrywiol.

Beth allwn newid am y tro nesaf yr ydym yn dysgu'r wers?

Er roedd y wers yma yn llwyddiannus, a roedden ni wedi newid ambell i beth o'r wers ddoed yn fy nosbarth blwyddyn 1, mae'n rhaid i mi cytuno roedd y newidiadau yma wedi

	gweithio ar gyfer y derbyn. Wrth sôn yn flaenorol, dim ond pedwar a phump ydy'r plant yma felly gallwn gwneud mwy o weithgareddau trafod i gynyddu dealltwriaeth ym mhellach. Roedd hyn yn anodd y tro yma o ganlyniad i amser y wersi. Os roedd mwy o amser gyda'n ni, fe allwn ni defnyddio llai o wledydd fel bod y plant yn gallu cael gwybodaeth dyfnach o efallau 2/3 gweld yn lle defnyddio 5.
<u>Llenyddiaeth</u>	

